Network Rail
Tŷ Sant Padrig
17 Heol Penarth
Caerdydd
CF10 5ZA

21 Awst 2020

Annwyl Aelod o Bwyllgor Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian,

Gwaith Adfer Traphont Abermaw

Hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch oedd wedi gallu ymuno â'r ail alwad fideo-gynadledda ynglŷn â Thraphont Abermaw i glywed am y gwaith uwchraddio mwyaf i'r strwythur eiconig hwn yn ei hanes. Yn ystod yr alwad, gofynnwyd inni ba wasanaethau bysiau yn lle trenau fyddai'n cael eu cynnig pan fydd y bont ar gau, yn arbennig i blant ysgol.

Mae COVID-19 yn golygu bod y sefyllfa'n newid o hyd, ac wrth gwrs byddwn yn rhoi diweddariad arall ichi os yw'r wybodaeth yn newid.

Bydd ein cydweithwyr yn Nhrafnidiaeth Cymru'n darparu gwasanaethau bysiau yn lle trenau pan fydd y bont ar gau. Mae 12 gorsaf ar linell y Cambrian nad oes modd eu cyrraedd gyda choetsis, dim ond â bysiau mini. Golyga hyn y bydd rhywfaint o gyfyngiad ar le ar y gwasanaethau bysiau yn lle trenau. Bydd y lle'n cael ei leihau yn fwy byth oherwydd y rheolau cadw pellter cymdeithasol er mwyn atal lledaeniad COVID-19.

Yn ychwanegol at y gwasanaethau bysiau yn lle trenau, bydd Trafnidiaeth Cymru'n darparu trafnidiaeth bwrpasol ar y ffyrdd i gludo disgyblion i'r ysgol pan fydd y bont ar gau. Bydd yr ysgolion yn rhoi'r wybodaeth hon i rieni. Mae swyddog cyswllt ysgolion Trafnidiaeth Cymru'n gweithio gyda'r ysgolion ar y niferoedd y bydd arnynt angen y drafnidiaeth hon, y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a threfniadau teithio amgen os bydd y galw am y gwasanaeth hwn yn fwy na'r nifer gyfyngedig o fysiau mini sydd ar gael.

I'ch atgoffa, bydd Traphont Abermaw ar gau am 16 diwrnod tra byddwn yn cyflawni ein gwaith adfer, o 23:40 ar 16 Hydref i 5:30 ar 2 Tachwedd. Byddwn hefyd yn cau'r bont a'r rhodfa droed ar y dyddiadau canlynol:

- O 00:10 i 10:10 ar ddydd Sul 6 Medi
- O 23:40 ar nos Sadwrn 12 Medi i 09:55 ar fore Sul 13 Medi
- O 00:10 i 10:10 ar ddydd Sul 20 Medi
- O 23:15 ar nos Sadwrn 26 Medi i 09:15 ar fore Sul 27 Medi
- O 00:10 i 10:10 ar ddydd Sul 4 Hydref
- O 23:15 ar nos Sadwrn 10 Hydref i 10:10 ar fore Sul 11 Hydref

Gobeithio bod y wybodaeth hon o gymorth. Rydym yn fwy na hapus i gynnal cyfarfod dilyn i fyny os ydych eisiau. Os oes gennych ragor o gwestiynau am y gwasanaethau bysiau yn lle trenau, cysylltwch â'm cydweithiwr Lowri Joyce yn Nhrafnidiaeth Cymru: Lowri.Joyce@tfw.wales. I gael diweddariadau am y gwaith, gallwch gysylltu â mi ar 07734 647383 neu Samuel.Hadley@networkrail.co.uk.

Yn gywir

Sam Hadley
Pennaeth Cyfathrebu
Network Rail Cymru a'r Gororau

Network Rail
St Patrick's House
17 Penarth Road
Cardiff
CF10 5ZA

21 August 2020

Dear Cambrian Coast Railway Liaison Conference Committee Member,

Barmouth Viaduct Restoration

I would like to thank those of you who were able to join us on our second Barmouth Viaduct video-conference call to hear about the biggest upgrade in the iconic landmark's history. We were asked during the call what rail replacement services would be offered when the bridge is closed, particularly for school children.

COVID-19 means this is an ever-changing situation and we will of course update you again should this information change.

Our colleagues at Transport for Wales will be providing rail replacement services during the closure. There are 12 stations on the Cambrian Line which can only be accessed by minibus rather than coaches. This means there will be some capacity restraints on rail replacement services. Social distancing rules to prevent the spread of COVID-19 will further reduce capacity.

In addition to the rail replacement services, Transport for Wales will be providing dedicated road transport to get pupils to school during the closure. Parents will be given this information by their schools. Transport for Wales' school liaison officer is working with schools on the numbers who will need this transport, social distancing requirements and alternative travel arrangements, should the demand for this service surpass the limited number of minibuses available.

As a reminder, Barmouth Viaduct will be closed for 16 days while we carry out our restoration work, from 23:40 on 16 October until 5:30 on 2 November. We will also be closing the bridge and walkway to carry out work on the following dates:

- From 00:10 until 10:10 on Sunday 6 September
- From 23:40 on Saturday 12 September until 09:55 on Sunday 13 September
- From 00:10 until 10:10 on Sunday 20 September
- From 23:15 on Saturday 26 September until 09:15 on Sunday 27 September
- From 00:10 until 10:10 on Sunday 4 October
- From 23:15 on Saturday 10 October until 10:10 on Sunday 11 October

I hope this information is helpful. We are more than happy to have a follow up meeting should you wish. If you have further questions on the rail replacement services, please contact my colleague Lowri Joyce at Transport for Wales: Lowri.Joyce@tfw.wales. For updates on the work, you can contact me on 07734 647383 or Samuel.Hadley@networkrail.co.uk.

Yours sincerely

Sam Hadley
Head of Communications
Network Rail Wales and Borders

NetworkRail